WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Adroddiad Archwilio Blynyddol 2011

# Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru

**Cyhoeddwyd:** Chwefror 2012

**Cyfeirnod y ddogfen:** 166A2012

# Statws yr adroddiad

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Anthony Barrett, Lucy Evans, Michelle Phoenix, Kelly Lovitt a Bernard Lucas.

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Adroddiad cryno** | 4 |
| **Adroddiad manwl** | |
| Defnyddiwyd adnoddau'r Awdurdod yn gywir ym mhob ffordd berthnasol, a rhoddwyd cyfrif amdanynt yn briodol | 6 |
| Paratowyd cyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2010-11 yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol, ond mae lle i wella'r broses o baratoi'r cyfrifon ac mae gwaith yn parhau i sicrhau bod trafodion a balansau Awdurdodau Heddlu Cymru yn cael eu trin mewn ffordd gyson | 6 |
| Cyflawnodd yr Awdurdod ei dargedau o ran ei gyllideb refeniw ar gyfer 2010-11 ac mae'n ymateb i'r heriau ariannol sylweddol sydd o'i flaen | 8 |
| Roedd gan yr Awdurdod amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol | 8 |
| Roedd systemau ariannol pwysig yr Awdurdod yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol yn ôl y bwriad | 8 |
| Mae gan yr Awdurdod drefniadau corfforaethol priodol ar waith i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol | 9 |
| Roedd gan yr Awdurdod drefniadau priodol yn 2010-11 i'w helpu i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau | 9 |
| Mae gwaith Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi ar ymateb yr Awdurdod i bwysau ariannol yn ategu fy nghasgliad ynghylch y trefniadau i sicrhau gwasanaethau effeithlon, darbodus ac effeithiol | 9 |
| **Atodiadau** | |
| Casgliad ar drefniadau Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 o ran sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau | 12 |
| Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau'r Awdurdod yn ystod 2010-11 o ran sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau | 13 |
| Adroddiadau sydd wedi'u cyflwyno ers fy llythyr archwilio diwethaf. Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i ddatganiadau ariannol drafft 2010-11 a gafodd eu dwyn i sylw Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru | 15 |

# Adroddiad cryno

1. Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol (yr Adroddiad) hwn i aelodau Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn crynhoi'r casgliadau o'm harchwiliad ar gyfer 2010-11. Mae'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth i aelodau'r Awdurdod am unrhyw faterion o bwys sy'n codi o'm harchwiliad, ynghyd â'm sylwadau ar faterion cyfredol eraill.
2. Ceir mwy o fanylion am agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr *Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol* a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Medi 2011.
3. Gwneir nifer o gyfeiriadau yn yr Adroddiad hwn at ganllawiau a dogfennaeth a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, yn cynnwys y Cod Ymarfer Archwilio (y Cod). Mae hwn yn cyfeirio at y Datganiad o Gyfrifoldebau Archwilwyr a Chyrff a Archwilir sy'n crynhoi cyfrifoldebau allweddol archwilwyr. Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yn y Datganiad hwnnw. Dylid ystyried fy sylwadau am ganlyniadau fy archwiliad yng nghyd-destun y cefndir mwy ffurfiol hwnnw.
4. Cynlluniaf yr archwiliad ar sail risg, ac mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar eich risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Mae'r gwaith archwilio wedi'i strwythuro ar sail elfennau allweddol fy nghyfrifoldebau fel y'u nodir yn y Cod. Mae *Amlinelliad o Archwiliad 2011* yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig, sef £83,482 (ynghyd â TAW), a bydd y ffi derfynol yn unol â'r ffi arfaethedig.
5. Rwyf wedi dod i'r casgliad bod adnoddau'r Awdurdod, ym mhob ffordd berthnasol, wedi'u defnyddio'n gywir ac y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn briodol yn 2010-11:
   - paratowyd cyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2010-11 yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol, ond mae lle i wella'r broses o baratoi'r cyfrifon ac mae gwaith yn parhau i sicrhau bod trafodion a balansau Awdurdodau Heddlu Cymru yn cael eu trin mewn ffordd gyson;
   - cyflawnodd yr Awdurdod ei dargedau o ran ei gyllideb refeniw ar gyfer 2010-11 ac mae'n ymateb i'r heriau ariannol sylweddol sydd o'i flaen;
   - roedd gan yr Awdurdod amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol ar waith i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
   - roedd systemau ariannol pwysig yr Awdurdod yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol, yn ôl y bwriad.
6. Mae gan yr Awdurdod drefniadau corfforaethol priodol ar waith i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol:
   - roedd gan yr Awdurdod drefniadau priodol yn 2010-11 i'w helpu i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
   - mae gwaith Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) ar ymateb yr Awdurdod i bwysau ariannol yn ategu fy nghasgliad ynghylch y trefniadau i sicrhau gwasanaethau effeithlon, darbodus ac effeithiol.
7. Cytunwyd ar yr Adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr, y Trysorydd a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a swyddogion perthnasol eraill. Caiff yr Adroddiad ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 24 Chwefror 2012 a chaiff copi ei roi i bob aelod o'r Awdurdod.

**8.** Fy nod yw cynnal archwiliad o safon uchel sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol ac ymarferol ac sy'n ategu agenda'r Awdurdod ei hun. Rwyf yn cydnabod pa mor werthfawr yw eich cydweithrediad a'ch cymorth er mwyn cyrraedd y nod hwn a hoffwn ddiolch i chi am y cymorth a'r cydweithrediad a roddwyd yn ystod yr archwiliad.

Anthony Barrett
Archwilydd Penodedig

Dyddiad: Chwefror 2012

# Adroddiad manwl

## Defnyddiwyd adnoddau'r Awdurdod yn gywir ym mhob ffordd berthnasol, a rhoddwyd cyfrif amdanynt yn briodol

**9.** Mae'r datganiadau ariannol yn ffordd hanfodol i'r Awdurdod roi cyfrif am y modd y mae'n gwarchod yr adnoddau sydd ar gael iddo a'i berfformiad ariannol wrth ddefnyddio'r adnoddau hynny.

**10.** Fel archwilydd allanol yr Awdurdod, mae'n ofynnol i mi archwilio'r datganiadau ariannol a chyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys barn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol a gyflwynwyd yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn.

### Paratowyd cyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2010-11 yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol, ond mae lle i wella'r broses o baratoi'r cyfrifon ac mae gwaith yn parhau i sicrhau bod trafodion a balansau Awdurdodau Heddlu Cymru yn cael eu trin mewn ffordd gyson

**11.** Paratôdd yr Awdurdod ei ddatganiadau ariannol drafft erbyn 30 Mehefin a chyhoeddodd ei ddatganiadau ariannol terfynol erbyn 30 Medi 2011, yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2010.

**12.** 2010-11 oedd y flwyddyn ariannol gyntaf y bu'n rhaid i awdurdodau'r heddlu lunio datganiadau ariannol o dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Roedd y newid hwn yn arbennig o heriol i'r Awdurdod gan fod newidiadau eraill yn cael eu gwneud hefyd (h.y. ailstrwythuro ac adleoli'r adran gyllid a newidiadau allweddol o ran personél cyllid ar lefel uwch).

**13.** Mae'n ofynnol i mi o dan Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n codi o'm gwaith i'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' (yr Awdurdod) cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon.

**14.** Cyflwynais adroddiad ar y materion hyn i'r Awdurdod ar 29 Medi 2011. Nodir y materion allweddol yn Arddangosyn 1.

### Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

| Gofyniad adrodd | Ymateb yr Archwilydd |
|---|---|
| Safbwyntiau ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu ac adroddiadau ariannol yr endid. | Rydym yn cydnabod y bu'r flwyddyn hon yn un heriol i'r Awdurdod yn sgîl cyflwyno'r IFRS ynghyd â'r gwaith o ailstrwythuro ac adleoli'r adran gyllid a newidiadau allweddol o ran personél cyllid ar lefel uwch. Fel y dangosir gan nifer a natur y newidiadau (a nodir yn Atodiad 3), ceir lle i wella trefniadau sicrhau ansawdd y broses o baratoi'r cyfrifon. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y cyfrifon drafft a gyflwynir i'r Awdurdod i'w cymeradwyo ac i archwilwyr allanol mor gyflawn a chywir â phosibl ac yn cydymffurfio cymaint â phosibl â'r safonau yn y dyfodol. |
| Addasiadau disgwyliedig i adroddiad yr archwilydd. | Nid oedd unrhyw addasiadau yn ofynnol i adroddiad yr archwilydd. |
| Camddatganiadau nas addaswyd. | Ni chafwyd unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd.<br>Er i nifer o gamddatganiadau perthnasol gael eu nodi fel rhan o'r archwiliad, cytunodd y rheolwyr i newid y rhain ym mhob achos. Cafodd rhestr o'r newidiadau sylweddol ei chyflwyno i'r Awdurdod cyn i'r cyfrifon gael eu cymeradwyo.<br>Mae'r rhestr hon wedi'i chynnwys yn Atodiad 3. |
| Gwendidau perthnasol yn y systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol a nodwyd yn ystod yr archwiliad. | Ni chododd unrhyw faterion. |
| Materion y mae'n ofynnol iddynt, o dan safonau archwilio eraill, gael eu cyfleu i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. | Ni chododd unrhyw faterion. |
| Unrhyw faterion perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r archwiliad. | Bu cytundeb cychwynnol ar driniaeth cyfrifyddu trafodion Awdurdodau Heddlu Cymru, ond ni chafodd ei chadarnhau yn derfynol ac ni chafodd ei hadlewyrchu yn natganiadau ariannol 2010-11. Dylid mynd i'r afael â'r mater hwn yn 2011-12. |

**15.** Ar 29 Medi 2011, rhoddais fy marn ar gyfrifon yr Awdurdod. Deuthum i'r casgliad fod y cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2011 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

**16.** Cwblhawyd yr archwiliad o ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan ym mis Hydref 2011. Nid oedd unrhyw faterion o bwys i gyflwyno adroddiad arnynt.

## Cyflawnodd yr Awdurdod ei dargedau o ran ei gyllideb refeniw ar gyfer 2010-11 ac mae'n ymateb i'r heriau ariannol sylweddol sydd o'i flaen

**17.** Mae gan yr Awdurdod hanes da o weithredu o fewn ei gyllideb refeniw a pharhaodd hyn yn 2010-11. Yn erbyn gofyniad cyllideb refeniw o £163.3 miliwn ar gyfer y flwyddyn, cofnododd yr Awdurdod danwariant o £4.7 miliwn a drosglwyddwyd yn bennaf i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i ariannu newidiadau i wasanaethau ac ystadau yn y dyfodol. Gwelwyd cynnydd net o £0.068 miliwn mewn perthynas â'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol a gododd i £6.8 miliwn.

**18.** Mae'r Awdurdod yn parhau i gael adroddiadau rheolaidd gan y Trysorydd a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau ar wariant a'r sefyllfa o'i chymharu â'r gyllideb. Dangosodd yr adroddiad ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2011 fod y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn rhagweld arbedion gwerth £4.7 miliwn ac yn unol â'r disgwyliadau. Mae hyn yn helpu i atgyfnerthu sefyllfa'r Awdurdod i ymateb i heriau ariannol, gweithredol ac anweithredol yn y dyfodol.

## Roedd gan yr Awdurdod amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol ar waith i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol

**19.** Yn ei adroddiad blynyddol, daeth y gwasanaeth Archwilio Mewnol i'r casgliad canlynol:

- 'Gall Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru fod yn sicr ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol ei amgylchedd rheolaeth fewnol, gan gynnwys ei drefniadau llywodraethu a rheoli risg.'

**20.** Yn benodol, canfûm y canlynol:

- roedd y trefniadau i gynnal y systemau rheolaeth fewnol yn effeithiol;
- fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi cyflawni'r safonau proffesiynol gofynnol ac felly roedd yn bosibl i ni ddibynnu ar ei waith, yn ôl y bwriad;
- roedd y trefniadau i sicrhau nad yw'r Awdurdod yn ymgymryd â thrafodion oni bai bod darpariaeth benodol iddo wneud hynny wedi parhau i weithredu'n effeithiol;
- roedd fframwaith llywodraethu'r Awdurdod yn gweithredu'n effeithiol ynghyd â'r trefniadau i atal a chanfod twyll a llygredd.

**21.** Byddaf yn parhau i fonitro sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn 2011-12.

### Roedd systemau ariannol pwysig yr Awdurdod yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol yn ôl y bwriad

**22.** Fel rhan o'm hadolygiad o systemau ariannol yr Awdurdod aethpwyd ati i werthuso'r systemau rheolaeth ariannol pwysig a, lle y bo angen, brofi gweithrediad y rheolaethau mewnol neu ddibynnu ar waith archwilio mewnol am sicrwydd bod y rheolaethau yn effeithiol. Deuthum i'r casgliad at ddibenion fy marn archwilio fod systemau ariannol pwysig yr Awdurdod yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol yn ôl y bwriad.

**23.** Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi argymell rhai gwelliannau i systemau a rheolaethau ariannol y rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Archwilio amdanynt, ac mae'n parhau i fonitro'r gwaith y mae rheolwyr yn ei wneud i'w rhoi ar waith. Byddaf innau hefyd yn parhau i fonitro'r gwaith o roi argymhellion y gwasanaeth archwilio mewnol ar waith.

**24.** Nid oes unrhyw faterion pellach y mae angen i mi dynnu sylw'r aelodau atynt.

## Mae gan yr Awdurdod drefniadau corfforaethol priodol ar waith i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol

### Roedd gan yr Awdurdod drefniadau priodol yn 2010-11 i'w helpu i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

**25.** Wrth archwilio cyfrifon yr Awdurdod bob blwyddyn, mae'n ofynnol i mi o dan adran 17(2)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fodloni fy hun ei fod wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Adlewyrchir y gofyniad hwn hefyd yn y Cod. Nodir fy nghasgliad ffurfiol ar drefniadau Gwerth am Arian yr Awdurdod ar gyfer 2010-11 yn Atodiad 1.

**26.** Yn ogystal â'r archwiliad o'r cyfrifon blynyddol, mae ffynonellau pwysig eraill o sicrwydd wedi deillio o waith perfformiad ac arolygu Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol.

**27.** Mae'r Swyddog Atebol yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnydd yr Awdurdod o adnoddau. At ddibenion fy ngwaith, rwyf wedi gwerthuso systemau'r Awdurdod yn erbyn nifer o gwestiynau. Nodir y dull hwn yn fanwl yn Atodiad 2. Ar gyfer pob cwestiwn, rwyf yn ystyried a oes bylchau yn y trefniadau y disgwylir iddynt fod ar waith, ac arwyddocâd y bylchau hynny.

**28.** Nid oedd unrhyw faterion pwysig yn codi o'm gwaith yn y maes hwn ar gyfer 2010-2010 yr hoffwn dynnu eich sylw atynt.

## Mae gwaith Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi ar ymateb yr Awdurdod i bwysau ariannol yn ategu fy nghasgliad ynghylch y trefniadau i sicrhau gwasanaethau effeithlon, darbodus ac effeithiol

**29.** Cynhaliodd HMIC waith maes ar gyfer ei hadolygiad, *Valuing the Police: Preparedness Inspection*, ym mis Chwefror 2012 a gwnaethom fynychu nifer o gyfarfodydd casglu gwybodaeth gyda HMIC bryd hynny. Cyhoeddodd HMIC ei hadroddiad lleol ar sefyllfa'r Awdurdod, ac adroddiad thematig cenedlaethol ar sefyllfa pob awdurdod heddlu ledled Cymru a Lloegr, ym mis Gorffennaf 2012.

**30.** Canfuwyd y canlynol yn adroddiad lleol HMIC:

- Roedd yr Heddlu a'r Awdurdod yn deall maint yr her a oedd yn eu hwynebu yn glir, ac maent wedi ystyried nifer o opsiynau i ddatblygu cynllun i ateb yr her honno.
- Mae gan yr Heddlu a'r Awdurdod gynlluniau manwl ar waith i gyflawni arbedion yn ystod 2011-12 a 2012-13 ac maent wedi pennu cyllideb i gyflawni'r holl arbedion angenrheidiol. Roedd y cynllun hefyd yn cynnwys clustog ariannol a gynlluniwyd i dalu unrhyw gostau annisgwyl neu am unrhyw oedi yn y broses weithredu.
- Roedd amserlenni a cherrig milltir clir y rhoddwyd cyfiawnhad drostynt, wedi'u hategu gan ddadansoddiad da.
- Roedd strwythurau llywodraethu clir ar waith i oruchwylio cynnydd.
- Mae'r heddlu a'r awdurdod wedi nodi'r newidiadau yn y cynllun a allai effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir ganddynt i'w cymuned, ac wedi gweithio i sicrhau bod yr effeithiau hyn mor fach â phosibl.
- Mae'r heddlu a'r awdurdod wedi sicrhau bod cyfathrebu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol yn rhan hanfodol o'r rhaglen newid. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus lleol a cheir tystiolaeth i ddangos bod hwn wedi helpu i lywio cynnwys y cynllun.
- Mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi nodi ei bod yn disgwyl i heddluoedd ac awdurdodau wneud toriadau ariannol gan barhau i leihau troseddau heb amharu ar y rheng flaen. Mae *Cynllun Plismona* Gogledd Cymru yn cynnwys amcanion i leihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ystod y flwyddyn i ddod.

**31.** Mae gwaith HMIC yn ategu fy nghasgliadau ynglŷn â threfniadau'r Awdurdod i sicrhau gwasanaethau effeithlon, darbodus ac effeithiol. Yn arbennig, mae'n cadarnhau bod yr Awdurdod a'r Heddlu mewn sefyllfa dda i weithio yn unol â'u cyllideb gan y bydd llai o adnoddau ar gael iddynt dros y pedair blynedd nesaf. Byddaf yn parhau i weithio gyda HMIC ac arolygwyr a rheoleiddwyr eraill i nodi cyfleoedd posibl i gydweithio ar waith archwilio perfformiad yn 2011-12.

32. Fel rhan o'n trefniadau cydweithio, rydym wrthi'n cynnal adolygiad gyda HMIC i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wneir o ran cyflawni'r cynlluniau i ateb yr her ariannol dros y blynyddoedd sydd ar ôl o'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant. Bydd yr adolygiad yn dilyn ein hadroddiad ar y cyd, sef *Cynnal gwerth am arian yng ngwasanaeth yr heddlu*, cylch cyntaf Arolygiadau Gwerth yr Heddlu HMIC, a chyhoeddiad diweddar yr adroddiad thematig *Adapting to Austerity*.

33. Mae dull cydlynol o weithredu rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a HMIC yn sicrhau na chaiff cynnwys rhaglenni gwaith ei dyblygu ac yn hyrwyddo prosesau rhannu rhwng ein sefydliadau i lywio ein rhaglenni gwaith a helpu i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n weithredol ac yn ddi-oed a bod risgiau a phryderon allweddol yn cael eu harchwilio.

34. Yn ddiweddar rydym wedi cymryd rhan yng nghyfarfodydd cymorth a her HMIC a gwaith dilynol sy'n rhan o'r broses adolygu. Fel rhan o'r trefniant hwn byddwn yn llunio adroddiad adborth i bob awdurdod a phapur briffio cenedlaethol ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol.

# Atodiad 1

## Casgliad ar drefniadau Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 o ran sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

**Cyfrifoldebau'r Swyddog Atebol**

Mae'r Swyddog Atebol yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnydd yr Awdurdod o adnoddau, ac i sicrhau stiwardiaeth a llywodraethu priodol. Mae'r Swyddog Atebol hefyd yn gyfrifol am adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn rheolaidd.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd**

Mae gennyf gyfrifoldeb o dan Adran 17(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004 i ddod i'r casgliad, o'm harchwiliad o gyfrifon blynyddol yr Awdurdod, p'un a wyf yn fodlon o ran bodolaeth y trefniadau a oedd ganddo ar waith yn ystod y flwyddyn i'w helpu i gyflawni ei gyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau yn briodol. At ddibenion fy ngwaith yn y maes hwn, rwyf wedi asesu 'trefniadau priodol' yn bennaf fel trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol sefydliad, y diffinnir elfennau pwysig ohonynt ym Mharagraff 48 o'r Cod.

Cyflwynaf adroddiad os yw materion o bwys wedi dod i'm sylw sy'n fy atal rhag dod i'r casgliad bod yr Awdurdod wedi gwneud trefniadau priodol o'r fath. Wrth ymgymryd â'm gwaith, nid wyf wedi ystyried a yw'r trefniadau sydd ar waith yn cynrychioli'r holl drefniadau a allai fod ar waith. Nid yw'n ofynnol ychwaith i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried fel rhan o'r agwedd hon ar fy ngwaith, effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith i sicrhau gwerth am arian yn ystod y flwyddyn a adolygir.

**Casgliad**

Mae'r casgliad canlynol yn seiliedig ar waith a wnaed fel rhan o'm harchwiliad o gyfrifon 2010-11 i gadarnhau, ym mhob ffordd berthnasol, pa drefniadau a oedd ar waith gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn i'w helpu i gyflawni ei gyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw.

Wrth ymgymryd â'm gwaith, nid wyf wedi ystyried a yw'r trefniadau sydd ar waith yn cynrychioli'r holl drefniadau a allai fod ar waith. Nid yw'n ofynnol ychwaith i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried, effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith i sicrhau gwerth am arian yn ystod y flwyddyn a adolygir.

Ar sail Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod ac o ganlyniad i'r gwaith a gyflawnwyd, fel y disgrifiwyd uchod fel rhan o'm harchwiliad o gyfrifon 2010-11, a'r holl wybodaeth arall yr ystyriais ei bod yn berthnasol, rwy'n fodlon o ran bodolaeth y trefniadau a oedd ar waith gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn i'w helpu i gyflawni ei gyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau yn briodol. Yn seiliedig ar y gwaith a gynhaliwyd, ac yn gyfyngedig iddo, rwyf wedi codi materion amrywiol, ac wedi gwneud argymhellion i wella trefniadau'r Awdurdod. Trafodir ac esbonnir y materion hyn ymhellach yn fy Llythyr Archwilio Blynyddol i'r Awdurdod.

| | |
|---|---|
| Anthony Barrett<br>Archwilydd Penodedig<br>Ionawr 2012 | Swyddfa Archwilio Cymru<br>24 Heol y Gadeirlan<br>Caerdydd CF11 9LJ |

# Atodiad 2

## Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau'r Awdurdod yn ystod 2010-11 o ran sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

| Trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol | Cwestiynau ar drefniadau |
|---|---|
| **Pennu amcanion, penderfynu ar bolisïau a gwneud penderfyniadau** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i bennu, adolygu a gweithredu ei amcanion strategol a gweithredol? |
| **Diwallu anghenion defnyddwyr, rhanddeiliaid a'r boblogaeth leol** | A yw'r Awdurdod wedi sefydlu modd o gyfathrebu â'r boblogaeth leol, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill yn cynnwys partneriaid, ac a oes trefniadau monitro i sicrhau bod negeseuon allweddol ynglŷn â gwasanaethau yn cael eu hystyried? |
| **Monitro ac adolygu perfformiad** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro perfformiad a chraffu arno, er mwyn nodi amrywiannau posibl yn erbyn amcanion, safonau a thargedau strategol, i weithredu lle y bo angen, a chyflwyno adroddiad i'r Awdurdod? |
| **Cydymffurfiaeth â pholisïau sefydledig** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i gynnal system rheolaeth fewnol gadarn, yn cynnwys trefniadau i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, a pholisïau a gweithdrefnau mewnol? |
| **Risgiau gweithredol ac ariannol** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i reoli ei risgiau busnes o bwys? |
| **Rheoli adnoddau ariannol ac adnoddau eraill** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i werthuso a gwella'r gwerth am arian y mae'n ei gyflawni yn ei ddefnydd o adnoddau? |
| | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod ei wariant yn cyfateb i'r adnoddau sydd ar gael? |
| | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith reoli a monitro perfformiad yn erbyn cyllidebau, gan gymryd camau adferol lle bo'n briodol, a chyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i uwch reolwyr a'r Awdurdod? |

| Trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol | Cwestiynau ar drefniadau |
|---|---|
| **Safonau ymddygiad priodol ac ati** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro perfformiad a chraffu arno, er mwyn nodi amrywiannau posibl yn erbyn amcanion, safonau a thargedau strategol ar gyfer gweithredu a, lle y bo angen, gyflwyno adroddiad i aelodau? |
| | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith gyda'r nod o hyrwyddo a sicrhau gonestrwydd a phriodoldeb wrth gynnal ei fusnes? |

DRAFT

# Atodiad 3

## Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i ddatganiadau ariannol drafft 2010-11 a gafodd eu dwyn i sylw Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi'r camddatganiadau canlynol a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol.

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
| --- | --- | --- |
| Cofnodion perthnasol amrywiol | Mae'r Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn wedi'i ail-lunio yn ei hanfod ac mae llawer o gofnodion wedi'u diwygio'n sylweddol. | Nid oedd llawer o falansau a datgeliadau yn y datganiad sylfaenol hwn yn cydymffurfio â gofynion IFRS. O ganlyniad, roedd gwahaniaeth o £711,000 rhwng matolen y datganiad hwn a datganiadau sylfaenol eraill, gan gynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Fantolen. |
| Cofnodion pwysig amrywiol | Mae'r Datganiad Llif Arian Parod wedi'i ail-lunio yn ei hanfod ac mae llawer o gofnodion ar gyfer 2010-11 a 2009-10 wedi'u diwygio'n sylweddol. | Nid oedd llawer o ddatgeliadau yn y datganiad sylfaenol hwn yn cydymffurfio â gofynion IFRS ac mewn rhai achosion nid oedd balansau arian parod wedi'u hategu'n llawn gan nodiadau manwl. |
| £1,800,618 | Asedau Anghyfredol - Nodyn 12:<br>• gwelwyd gostyngiad o £1,800,618 yng nghost eiddo, offer a chyfarpar;<br>• gwelwyd gostyngiad o £1,696,830 mewn dibrisiant cronedig;<br>• gwelwyd cynnydd o £104,787 o ran enillion ar ôl gwaredu asedau hirdymor. | Nid oedd yr Awdurdod wedi rhoi cyfrif am waredu fflyd o gerbydau yn ystod y flwyddyn. |
| £1,953,925 | Credydwyr Byrdymor - Mantolen ddiwygiedig 2008-09:<br>• Gwelwyd cynnydd o £1,954,925 yn y ddarpariaeth absenoldeb cronedig ym mantolen ddiwygiedig 2008-09. | Nid oedd y ddarpariaeth absenoldeb cronedig ar gyfer 2008-09, a gyfrifwyd gan ymgynghorwyr allanol, yn cynnwys Yswiriant Gwladol, Blwydd-daliadau nac yn ystyried diwrnodau gorffwys a ganslwyd neu amser i ffwrdd yn gyfnewid am wyliau banc. |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| £335,659 | Gwelwyd cynnydd yn y balans arian parod ar y Fantolen, a gwelwyd gostyngiad o £335,659 yn y cyfandaliadau yn y cyfrif pensiwn. | Cafodd y balans arian parod gwreiddiol ei danddatgan gan ei fod yn cynnwys siec am gyfandaliad pensiwn a gafodd ei golli ac y dylid bod wedi'i ganslo. |
| £1,135,000 | Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - dilëwyd y gost ar gyfer amorteiddio grant y llywodraeth. | Nid oedd y driniaeth gyfrifyddu wreiddiol yn cydymffurfio ag IFRS ac felly roedd y balansau a ddygwyd ymlaen yn anghywir. |
| £2,379,000 | Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - Cyfrifwyd grantiau a gafwyd gan y llywodraeth yn 2009-10. | Nid oedd y driniaeth gyfrifyddu wreiddiol yn cydymffurfio ag IFRS ac felly roedd y balansau a ddygwyd ymlaen yn anghywir. |
| £15,376,000 | Offerynnau Ariannol - Diwygiwyd nodyn 40 i gynnwys atebolrwydd y brydles ariannol, yr atebolrwydd PFI a llog ar y brydles ariannol. | Nid oedd y nodyn gwreiddiol yn cydymffurfio ag IFRS drwy eithrio'r brydles ariannol, yr atebolrwydd PFI a llog ar y brydles ariannol. |
| Cofnodion pwysig amrywiol | Mae'r Addasiad rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail ariannu o dan y Rheoliadau (Nodyn 7) wedi'i ail-lunio yn ei hanfod ac mae nifer o gofnodion wedi'u diwygio'n sylweddol. | Roedd y nodyn gwreiddiol yn anghyflawn ac nid oedd nifer o ddatgeliadau a balansau'n cydymffurfio ag IFRS. |
| £257,000 | Gwariant Cyfalaf ac Ariannu Cyfalaf - Nodyn 31. Gwelwyd gostyngiad o £257,000 yn y Gofyniad Ariannu Cyfalaf. | Nid oedd y nodyn gwreiddiol yn gyson â'r papurau gwaith ategol. |
| Amrywiol | Y Symiau a Nodwyd ar gyfer y Penderfyniad Dyrannu Adnoddau - Nodyn 25.<br>Ychwanegwyd datgeliad i gysoni'r alldro a gyflwynwyd i'r Awdurdod ym mis 12, a nodwyd y canlyniad yn y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. | Roedd y nodyn gwreiddiol yn cysoni gwerthoedd gwahanol ac nid oedd yn cydymffurfio ag IFRS. |
| Amrywiol | Gwnaed dros 50 o ychwanegiadau a diwygiadau eraill i ddarnau naratif a datgeliadau yn y cyfrifon. | Er mwyn cydymffurfio ag IFRS a sicrhau bod y datganiadau ariannol yn gyflawn, yn glir, yn gywir ac yn gyson. |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk